Eisteddfod Penrhyn-coch 2018
Cystadleuaeth Rhif 9: Limrig 'Aeth Sion i'r Brifysgol yn Aber'

Ymgeisiodd tri ar ddeg o limrigwyr.

Trist yn hytrach na doniol yw limrig EFA, a limrig DAFYDD, a limrig SWYNI hefyd, i raddau.

Mae rhythm limrigau AFSOR yn lletchwith iawn yn anffodus, ond mae'r ergydion yn ddigon doniol.

Dwi ddim cweit yn deall ergyd limrig AR Y BAR, efallai fy mod yn methu rhywbeth amlwg! Ai wedi mynd i Aber i astudio gymnasteg ond cael ei hun yn astudio ffiseg a wnaeth?!

Hoffais ddarlun y GWEINIDOG ADDYSG (ac mae ergyd digon amlwg yn y ffug enw am bolisi cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru!).

Anfonodd ANNABELLE lond tudalen o limrigau, rhai yn well na'i gilydd o ran rhythm y mesur ac o ran doniolwch. Er enghraifft mae'r llinell 'Mae nawr yn byw yn Llangeler' ychydig yn chwithig. Mae ambell enghraifft o ddiffyg ergyd ddoniol ond wedyn mae'r limrig am y bwtshwr ym Mhencader yn sicr yn taro deuddeg. Tebyg iawn oedd ymdrechion MYFANWY - rhai limrigau llwyddiannus ('Wel draw at eich gwraig i Bencader') ond nifer yn taro'n lletchwith ('Nis gwelwyd ef wedyn nol llawer'). Mae'n bosib bod ISFOEL o'r un stabl a MYFANWY ond mae'r rhain tipyn gwell. Mae mwy o ysgafnder cynnil ynddynt.

Efallai fy mod yn methu ergyd CAMBRIAN NIWT (ffug-enw gwych!). Mae'n debyg bod Sion wedi cael sgwp am leoliad Cantre'r Gwaelod mewn seler, a hynny ynghynt na'r newyddiadurwr Lyn Ebenezer.

Mae AP RHYD yn amau cymhellion a chymeriad myfyrwyr mae arnai ofn! Limrigau digon doniol, sy'n llifo o ran mydr.

Doniol iawn yw limrig MORWR. Siom clywed mai dim ond deufis a hanner barodd Sion yn Aber ond rhaid edmygu ei ddawn yn cyrraedd Vancouver mewn dingy. Rhaid ystumio ynganiad Vancouver er mwyn yr odl yn anffodus.

Nid oes rhaid i bob limrig fod yn ddoniol - gall rhai fod yn ysgafnach a chyfleu neges, fel limrig ONCE A STUDENT. Eto, rhaid ynganu Leicester ychydig yn annaturiol, ond oherwydd ei glyfrwch, ONCE A STUDENT sy'n mynd â hi.